

CANLLAW CYMERADWYAETH CORFF O BERSONAU CYMRU

Dan Adran 37(3)(b) Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 nid oes angen trwydded ar gyfer perfformiad a roddir dan drefniadau a wneir gan 'gorff o bersonau' a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol y mae'r perfformiad yn digwydd ynddo, neu mewn rhai amgylchiadau eithriadol, gan Lywodraeth Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Beth yw Cymeradwyaeth Corff o Bersonau?

Y peth cyntaf i'w esbonio i'r ddau sefydliad sy'n gwneud cam am gymeradwyaeth a'r awdurdodau sy'n cyflwyno cymeradwyaeth corff o bersonau yw nad ddylid ystyried cymeradwyaeth corff o bersonau fel dull o 'osgoi'r' gofyniad am drwydded perfformio. Bydd gwneud cais am gymeradwyaeth a'i rhoi yn lleihau'r pwysau gweinyddol ar yr holl bartion, fodd bynnag mae'r un egwyddorion yn berthnasol o ran diogelu'r plentyn a sicrhau bod darpariaeth briodol i ddiogelu ei iechyd ac o ran ei drin yn garedig. **Rhaid peidio â lleihau'r trefniadau diogelu.**

Mae cymeradwyaeth, os caiff ei rhoi, yn cael gwared â'r angen i wneud cais am drwydded unigol i bob plentyn; caiff ei rhoi i'r sefydliad sy'n gyfrifol am y perfformiad. Caiff y gymeradwyaeth ei rhoi gan yr awdurdod lleol y mae'r perfformiad yn digwydd ynddo; caiff yr awdurdod lleol roi cymeradwyaeth hyd yn oed os nad yw'r plant sy'n cymryd rhan yn byw o fewn ei ffiniau. Y sefydliad a gymeradwyir nid y plant h.y. mae'r awdurdod lleol yn cadarnhau bod y grŵp neu sefydliad yn grŵp 'addas' neu yn grŵp 'a gymeradwyir' ac felly mae'n rhaid iddo fod yn sicr ei fod (yr ALI) wedi rhoi camau ar waith i sicrhau bod y grŵp yn wir yn grŵp addas.

Gellir rhoi cymeradwyaeth i sefydliad am berfformiad unigol neu am gyfres o berfformiadau o fewn cyfnod penodol cyn belled na wneir unrhyw daliadau i'r plentyn neu unrhyw un arall mewn cysylltiad â'r plentyn yn cymryd rhan yn y perfformiad ac nad oes angen i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol. *Gweler Adran 7 Absenoldeb o'r ysgol* i gael rhagor o wybodaeth.

Nid oes modd trosglwyddo cymeradwyaeth i sefydliad arall neu i blant unigol sy'n cymryd rhan mewn perfformiad a drefnir gan rhywun arall. Ni ellir rhoi cymeradwyaeth mewn cysylltiad â gweithgaredd.

Nid 'trwydded grŵp' yw cymeradwyaeth nac eithriad o dan y rheol 4 diwrnod.

Pwy all wneud cais?

Caiff unrhyw fath o sefydliad wneud cais am Cymeradwyaeth Corff o Bersonau h.y. grŵp amatur, cwmni, llwyfan neu ddarllediad proffesiynol cyn belled na wneir unrhyw daliad (ac eithrio treuliau) er mwyn i'r plentyn gymryd rhan. Fodd bynnag, bydd rhaid iddynt fodloni rhai meini prawf a dangos bod ganddynt bolisiau a threfniadau diogelu clir, cadarn a sefydledig ar waith i amddiffyn plant. Bydd hyn yn llywio penderfyniad yr awdurdod lleol ac ef fydd yn penderfynu p'un ai i roi'r gymeradwyaeth neu beidio.

Gwyliau (Dawns, Drama, Cerddoriaeth, Gwaith Llafar) a 'Chystadlaethau'

Ers cyflwyno Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015 a chanllawiau ategol mae'n glir bod rhai perfformiadau a anwybyddwyd yn anghywir yn flaenorol, yn dod o dan y system trwyddedu perfformiadau.

Mae nifer o drefnwyr gwyliau wedi dadlau oherwydd yr 'elfen addysgol' sy'n rhan hanfodol o'u gwyliau y dylent gael eu heithrio o drwyddedu. Nid ysgol yw trefnwyr gwyliau a chan hynny ni ellir eithrio'r ŵyl dan adran 37(3)(b) Deddf 1963. Dylai trefnwyr gwyliau nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau os ydynt yn destun deddfwriaeth perfformiadau. (Gweler Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel, canllawiau Llywodraeth Cymru 192/2015 - gweler isod)

1.5 Efallai na fydd angen trwydded ar gyfer perfformiad os yw:

- a) wedi'i drefnu gan ysgol – sefydliad addysgol sy'n darparu addysg gynradd neu addysg uwchradd, yn hytrach nag ysgol ddawns neu debyg; a
- b) yr ysgol sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r perfformiad, a allai gynnwys plant o'r ysgol honno neu un arall.

Dylid nodi hefyd nad yw'n dweud yn unman yn y ddeddfwriaeth perfformiadau bod 'cystadlaethau' wedi'u heithrio rhag trwyddedu.

Os yw perfformiad/digwyddiad yn bodloni unrhyw un o'r meini prawf a fanylir yn adran 37(2) Deddf 1963 mae'n dod o dan y ddeddfwriaeth trwyddedu perfformiadau plant waeth beth fo'r enw a roddir i'r digwyddiad e.e. gŵyl, cystadleuaeth, gala ac ati. Dylech nodi bod 'tâl mynediad neu fel arall' yn cynnwys talu i ddod i mewn i'r digwyddiad.

Yn y rhan fwyaf o achosion y ffordd ymlaen fwyaf priodol i drefnydd y mathau hyn o ddi-gwyddiadau yw gwneud cais i'r awdurdod lleol y cynhelir y digwyddiad ynddo am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau.

Mae nifer y gwyliau a digwyddiadau tebyg a gynhaliwyd ledled Cymru a Lloegr bob blwyddyn yn sylweddol a gall fod yn faich gwaith sylweddol ar swyddogion trwyddedu. Wrth ddelio â'r fath ddi-gwyddiadau (y mae llawer ohonynt yn cynnwys rhai cannoedd o blant yn cymryd rhan dros nifer o ddiwrnodau ac wythnosau) mae'n hollbwysig bod awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar y trefniadau diogelu sydd gan y trefnwyr ar waith fel y nodir uchod. Ni ddylai'r swyddog trwyddedu fynnu bod gwybodaeth yn cael ei hanfon ymlaen at yr awdurdod lleol nad yw'n uniongyrchol yn llywio eu penderfyniad i roi cymeradwyaeth.

Mewn amgylchiadau eithriadol caiff Llywodraeth Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno Cymeradwyaeth Corff o Bersonau. Ceir cyngor o'r canllawiau perthnasol isod:

Cyngor Llywodraeth Cymru Mae 1.12 yn nodi'r canlynol:

- 1.12 Os yw cais am gymeradwyaeth dorfol yn cynnwys nifer fawr o blant dros nifer sylweddol o ardaloedd awdurdodau lleol, mewn rhai amgylchiadau gallai Gweinidogion Cymru ystyried y cais. Ond yn y rhan fwyaf o achosion mae awdurdodau lleol mewn gwell sefyllfa i farnu'r anghenion a'r trefniadau ar gyfer diogelu'r plant dan sylw ac ni fyddai Gweinidogion Cymru'n disgwyl derbyn ceisiadau'n

rheolaidd.

Mae cyngor yr Adran Addysg 1.3.7 yn nodi:

- Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i roi Cymeradwyaeth ond ni fydd fel arfer yn ystyried ceisiadau. Mae hyn oherwydd bod awdurdodau mewn gwell sefyllfa i asesu trefniadau a wneir i ddiogelu plant mewn gweithgareddau lleol, i archwilio'r trefniadau hynny a gorfodi unrhyw ofynion neu amodau y bwriedir eu defnyddio i amddiffyn plant.
- Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried unrhyw geisiadau nad ydynt yn cynnwys nifer fawr o berfformiadau gan nifer o blant ledled nifer sylweddol o ardaloedd awdurdodau lleol.

Dylai sefydliadau felly wneud cais am gymeradwyaeth i'r awdurdod lleol y cynhelir y perfformiad ynddo. Ni ddylai sefydliad weud cais i Lywodraeth Cymru neu Ysgrifennydd Gwladol am ei fod o'r farn bod yr awdurdod lleol yn cymryd gormod o amser i brosesu cais. Yn bendant ni ddylen wneud cais i Lywodraeth Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol oherwydd bod yr awdurdod lleol wedi gwrthod cais.

Sut i wneud cais

Yr ystyriaeth gyntaf yw ai Cymeradwyaeth Corff o Bersonau yw'r llwybr priodol i'w ddilyn o dan yr amgylchiadau dan sylw.

Os yw'r plentyn yn cael ei dalu neu os yw unrhyw un arall yn cael ei dalu i'r plentyn gymryd rhan yna **NID** yw Cymeradwyaeth Corff o Bersonau yn briodol ac mae'n rhaid gwneud cais am drwydded. Os yw'r perfformiad dan sylw o'r math y byddai disgwyl fel arfer i blentyn gael ei dalu amdano dylai'r awdurdod lleol gwestiynu absenoldeb taliad a gall ddod i'r casgliad nad yw Cymeradwyaeth Corff o Bersonau yn addas o dan yr amgylchiadau.

Os oes angen i'r plentyn fod yn absennol o'r ysgol eto ni fyddai Cymeradwyaeth Corff o Bersonau yn addas a byddai'n rhaid gwneud cais am drwydded ond darllenwch *Atodiad A*.

Os caiff y meini prawf uchod eu bodloni dylai'r sefydliad gysylltu â'r awdurdod lleol y cynhelir y perfformiad ynddo i drafod gwneud cais am Gymeradwyaeth a llenwi [cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau](#), amodau ffurflen gymeradwyaeth a Rhestr Wirio Diogelu Plant.

Dylai'r sefydliad wneud cais i'r awdurdod lleol mewn da bryd er mwyn sicrhau ei fod yn cael digon o amser i asesu'r cais a gofyn am fwy o wybodaeth petai angen hynny. Awgrymir y byddai 21 diwrnod yn unol â'r rheoliadau yn gyfnod rhesymol.

Fel y nodwyd yn gynharach yr awdurdod lleol sy'n penderfynu p'un ai i roi Cymeradwyaeth Corff o Bersonau a bydd rhaid i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth o'r canlynol:

- Bod polisiau a gweithdrefnau clir, cadarn a sefydledig ar waith
- Swyddog Amddiffyn/Diogelu Plant
- Polisi amddiffyn plant a gaiff ei ddiweddarau (bob 12 mis) ynghyd â manylion o ran sut y caiff hwnnw ei gyfleu a'i ddilyn
- Tystiolaeth o unrhyw hyfforddiant amddiffyn/diogelu plant
- Gweithdrefnau ar gyfer cadarnhau addasrwydd personau a fydd yn gyfrifol am blant

Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn gofyn i'r sefydliad gytuno i rai amodau a fydd yn cynnwys y canlynol:

- I gydymffurfio â rheoliad 11 a Rheoliadau 15 i 29 o Reoliadau Plant (perfformiadau a gweithgareddau) (Cymru) 2015
- Sicrhau y caiff nifer priodol o warchodwyr a gymeradwyir gan awdurdod lleol neu bersonau eraill â chymeradwyaeth addas eu cyflogi i ofalu am y plant a sicrhau eu bod yn cael eu goruchwyllo ar bob adeg.
- Sicrhau bod trefniadau addas ar gael ar gyfer cymorth cyntaf.
- Cadw cofnodion manwl a chyflawn am y plant sydd ynghlwm wrth y digwyddiad gan gynnwys manylion cyswllt mewn argyfwng a materion meddygol (gweler isod)
- Gofyn am ddatganiad o ffitrwydd wedi'i lofnodi gan riant pob plentyn (gweler isod)
- Y caiff swyddog awdurdodedig yr awdurdod lleol fynediad di-rwystr i unrhyw ymarfer, ymarfer technegol neu berfformiad mewn unrhyw leoliad y gall y sefydliad ei ddefnyddio

Os yw'r digwyddiad yn ddigwyddiad mawr gyda llawer o wahanol grwpiau yn cymryd rhan, mae'n rhaid i'r trefnydd sicrhau/dangos i'r awdurdod lleol y bydd y grwpiau unigol yn cadw cofrestr fanwl o'r plant y byddant yn gyfrifol amdanynt yn ystod eu hamser yn y digwyddiad. Dylai hyn gynnwys enw, cyfeiriad, oedran y plentyn ynghyd ag unrhyw fanylion cyswllt mewn argyfwng a manylion unrhyw faterion meddygol. Mae'n rhaid i'r person cyfrifol sicrhau y caiff y wybodaeth gyfrinachol hon ei chadw'n ddiogel drwy gydol y digwyddiad a sicrhau ei bod ar gael yn lleoliad y perfformiad at ddibenion archwilio. Dylai'r rhieni fod wedi lofnodi datganiad o ffitrwydd hefyd. Os yw'n ofyniad bod rhaid llenwi ffurflen ymgeisydd er mwyn cymryd rhan yn y digwyddiad, yr arfer gorau fyddai cynnwys datganiad ffitrwydd yn y ffurflen honno.

Nid yw'n ofyniad bod rhaid i'r trefnydd roi enw, dyddiad geni, cyfeiriad ac enw ysgol y plant sy'n cymryd rhan i'r awdurdod lleol. Nid yw gwybodaeth fanwl o'r fath yn llywio penderfyniad y swyddog trwyddedu i roi cymeradwyaeth. Dylai'r swyddog trwyddedu holi ynghylch nifer y plant sy'n cymryd rhan, niferoedd y rhywiau ac oedran a dylid rhoi ystyriaeth i hynny wrth sicrhau goruchwyliaeth foddhaol.

Mae'n bosib y bydd amodau eraill y gallai awdurdod lleol eu gosod yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y perfformiad.

Nodwch: Mae cyngor yr Adran Addysg 1.3.7 yn nodi: Pan fo perfformiad yn cael ei gynnal dan nawdd Cymeradwyaeth Corff o Bersonau nid yw'r ddeddfwriaeth yn dweud bod rhaid i'r plentyn gael ei oruchwyllo gan warchodwr a gymeradwyir gan awdurdod lleol.

Nid yw'r datganiad hwn yn ddilys ar ei ben ei hun. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau ei hun fod gan y sefydliad bolisiau clir, cadarn a sefydledig ar waith ar gyfer diogelu plant ac mae'r gwaith o oruchwyllo a gofalu am y plant o'r pwys mwyaf. Wrth ystyried p'un ai i roi cymeradwyaeth i grŵp, mae'n rhaid i'r swyddog trwyddedu ofyn i'r grŵp esbonio eu gweithdrefnau o ran cynnal gwiriadau cefndir ac addasrwydd ar yr oedolion fydd yn gofalu am y plant. Er enghraifft: beth yw'r weithdrefn ar gyfer cael gwiriad GDG a sut fyddan nhw'n delio ag unrhyw wybodaeth anffafriol mewn cysylltiad â datgeliad? A oes angen geirdaon annibynnol arnynt? Pa hyfforddiant a gynigir mewn cysylltiad ag amddiffyn plant a deddfwriaeth perfformiadau plant? Mae profiad yn dangos y byddant yn aml iawn yn methu â dangos bod gweithdrefnau derbynol ar waith ac oherwydd hynny dim ond defnyddio gwarchodwyr a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol fydd yn galluogi'r grŵp i gael eu hystyried ar gyfer cymeradwyaeth corff o bersonau. Barn

gadarn NNCEE yw ei bod yn well i blant sy'n perfformio dan Gymeradwyaeth Corff o Bersonau gael eu goruchwyllo gan warchodwyr a gymeradwyr gan awdurdod lleol ac mai hynny ddylai ddigwydd pan fo'n bosib.

Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod rhai eithriadau. Dylai swyddogion trwyddedu ystyried digwyddiadau yn unigol ac atal rhag defnyddio un ateb sy'n addas i bawb. Er enghraifft, oherwydd natur y digwyddiad a'r hyn a ddisgwylir gan y plentyn sy'n cymryd rhan gall Swyddogion Trwyddedu ystyried bod trefniadau amgen i'r 1:12 neu gymhareb gwarchodwyr awdurdod lleol is yn foddhaol i ddiogelu'r holl blant sy'n cymryd rhan. Drwy gynnal trafodaethau manwl gyda'r trefnydd ynghylch y gwaith o gynnal a rhedeg y digwyddiad h.y. gweithdrefnau llofnodi i mewn ac allan, ardaloedd gwarchod plant, ardaloedd newid os bydd angen, y trefniadau arfaethedig ar gyfer symud y plant rhwng gwahanol ardaloedd yn y lleoliad a'u goruchwyllo, gall swyddogion trwyddedu gytuno ar gymysgedd o ddewisiadau goruchwyllo yn cynnwys gwarchodwyr awdurdod lleol, oedolion gyda gwiriadau GDG, athrawon a rhieni'r plentyn ei hun. Gweler yr enghreifftiau canlynol.

Enghraifft

Mae cadeirlan yn cynnal nifer o ddigwyddiadau gyda'r hwyr y mae sawl ysgol yn cymryd rhan ynddynt. Roedd yn briodol rhoi Cymeradwyaeth Corff o Bersonau ac yn yr achos hwn ni osododd yr awdurdod lleol amod bod gwarchodwyr awdurdod lleol yn cael eu cyflogi. Roedd y plant yn cael eu goruchwyllo gan eu hathrawon, fodd bynnag cytunodd yr awdurdod lleol ar gymhareb athrawon - plant gyda golwg ar sicrhau bod niferoedd digonol yn bresennol ac nad oedd yr oruchwyliaeth yn cael ei gwneud gan rieni-gynorthwyr.

Enghraifft

Rhoddwyd Cymeradwyaeth Corff o Bersonau i sefydliad awdurdod lleol oedd yn rhedeg côr i blant gydag amrywiaeth o anghenion arbennig gwahanol. Roedd y côr i fod i berfformio mewn digwyddiad a drefnwyd gan y grŵp awdurdod lleol. Gan fod llawer o'r plant yn meddu ar anghenion arbennig eithaf penodol roedd angen mwy o oruchwyliaeth na'r 1 gwarchodwyr fesul 12 o blant arferol. Cytunwyd mai'r bobl fwyaf cymwys i oruchwyllo a rhoi'r cymorth penodol yr oedd ei angen ar y plant hyn oedd y staff cymorth o ysgol anghenion arbennig y plentyn, nad oeddent yn athrawon nac yn hebryngwyr. Gwaith y staff cymorth a oedd yn meddu ar wriad GDG ac wedi'u hyfforddi i ddelio â'r anghenion penodol hyn yno i gynorthwyo athrawon cerdd yr awdurdod lleol. Roedd y staff Cerdd wedi cyflawni hyfforddiant diogelu a hyfforddiant ar reoliadau perfformiadau fel rhan o'r gofyniad ar gyfer rhoi'r Cymeradwyaeth Corff o Bersonau a hefyd wedi cael gwriad GDG. Gweithiodd y trefniant hwn yn dda ac roedd y plant yn gallu cyfrannu'n llawn yn y cyngerdd.

Enghraifft

Roedd sefydliad i fod i gynnal rownd derfynol eu digwyddiad dawnys blynyddol. Cynhaliwyd rhagbrofion ledled y wlad ac roedd y grwpiau buddugol yn teithio i'r lleoliad ar gyfer y rownd derfynol fawreddog. Roedd llawer iawn o blant yn cymryd rhan a fyddai'n bresennol yn y lleoliad am nifer uchaf yr oriau a ganiateir. Byddai'r plant yn ymarfer yn y lleoliad ac wedyn yn perfformio ar adeg benodol.

Trefnwyd cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r trefnydd yn y lleoliad. Daeth yn amlwg bod

gan y grwpiau dawns unigol gymysgedd o drefniadau goruchwylio ar waith h.y. nifer y gwarchodwyr a gymeradwyir gan awdurdod lleol a ganiateir, cymysgedd o warchodwyr ac oedolion gyda gwiriad GDG, oedolion a rhieni â gwiriad GDG. Cytunwyd gyda'r trefnwyr y byddai nifer digonol o'u staff yn cael eu cymeradwyo yn warchodwyr. Byddai'r gwarchodwyr dan sylw yn sicrhau bod y grwpiau dawns unigol a'u gwarchodwyr yn cael eu tywys i gefn y llwyfan i'r ystafelloedd gwisgo ar yr adegau penodol, yn cael eu hebrwng i'r llwyfan ac oddi arni ac yna eu hebrwng yn ôl i'w hardaloedd gwarchod plant yn dilyn y perfformiad. Roedd hyn yn sicrhau bod yr ardal cefn llwyfan yn cael ei goruchwylio gan warchodwyr a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol drwy gydol y perfformiad. Trafodwyd a chytunwyd am y trefniadau ar gyfer goruchwylio'r plant pan nad oeddent yng nghefn y llwyfan neu'n perfformio yn ogystal. Gweithiodd y trefniant hwn yn dda ac aeth popeth yn rhwydd yn y digwyddiad.

Enghraifft

Gofynnodd trefnydd gŵyl leol i'r awdurdod lleol drafod gwneud cais am Gymeradwyaeth Corff o Bersonau ar gyfer eu gŵyl flynyddol. Roedd yr ŵyl yn cael ei chynnal dros nifer o ddiwrnodau ac roedd llawer o'r ymgeiswyr yn blant. Ar wahân i'r grwpiau plant arferol, roedd nifer o'r plant yn ymgeiswyr unigol a fyddai un ai'n canu, chwarae offeryn neu yn adrodd darn o farddoniaeth. Cynghorwyd yr awdurdod lleol ei bod yn arferol i'r plant dan sylw eistedd yn y gynulleidfa gyda rhiant tan iddynt gael eu galw i berfformio ar adeg benodol; nid oedd y trefnydd yn gwybod os oeddent wedi cyrraedd nes iddynt gael eu galw. Cytunwyd gyda'r trefnydd y dylai'r rhiant chwarae rôl y gwarchodwr i'w plentyn, ar os gyda nhw yn y gynulleidfa a'u hebrwng i'r llwyfan ac oddi arno. Cytunwyd hefyd y byddai rhestr o'r plant oedd yn ymgeisio yn cael ei llunio ar gyfer bob dydd ac y dylai'r rhiant lofnodi eu plentyn i mewn wrth gyrraedd ac allan wrth adael.

Pan fo'n bosibl, fe'i hystyrir yn arfer gorau y caiff y person neu bersonau o'r grŵp eu cyfweld gan y swyddog trwyddedu. Gall hyn ddigwydd yn swyddfa'r awdurdod lleol neu os yw'n grŵp lleol o ddewis yn y lleoliad y maent yn ymarfer ac yn perfformio ynddo. Bydd hyn yn galluogi'r swyddog trwyddedu i weld yn llygad y ffynnon y gweithdrefnau sydd gan y grŵp ar waith a chynnal archwiliad o'r man perfformio ac ymarfer fel sy'n ofynnol dan Reoliad 17.

Rhoi Cymeradwyaeth Corff o Bersonau

Gall yr awdurdod lleol roi Cymeradwyaeth Corff o Bersonau ar gyfer perfformiad unigol neu am gyfres o berfformiadau dros gyfnod penodol; hyd at flwyddyn fel arfer.

Os rhoddir cymeradwyaeth am gyfnod o amser dylai fod yn amod bod y sefydliad yn rhoi manylion am bob perfformiad/ymarfer i'r awdurdodau lleol gan gynnwys y dyddiadau, amserau a lleoliad, enwau'r gwarchodwyr ynghyd â nifer y plant sy'n cymryd rhan gan gynnwys nifer y rhywiau ac ystod oedran, o leiaf 21 diwrnod cyn y perfformiad cyntaf oni bai fod yr awdurdod lleol wedi cytuno ar gyfnod hysbysu byrrach.

Os yw'n fodlon gyda'r trefniadau a gynigir dylai'r awdurdod lleol roi cymeradwyaeth i berfformio mewn cysylltiad â'r perfformiad penodol hwnnw.

Fel y nodwyd eisoes, nid oes angen i blentyn fyw o fewn ffiniau'r awdurdod lleol sy'n dyroddi'r BOPA. Petaent yn dod yn ymwybodol o hyn nid oes rhaid i'r awdurdod lleol sy'n

rhoi'r gymeradwyaeth gael 'caniatâd' awdurdod arall i gynnwys eu plant. Nid yw o bwys os yw'r plentyn wedi perfformio ar 4 diwrnod neu fwy yn ystod y chwe mis olaf, mae dal yn bosib eu cynnwys mewn Cymeradwyaeth Corff o Bersonau.

Enghraifft

Mae Amy wedi cael 2 drwydded yn ystod y 3 mis diwethaf ac wedi gweithio am 2 ddiwrnod ar ddrama deledu ac wedi ffilmio hysbyseb teledu am 1 diwrnod. Mae'r grŵp theatr lleol y mae hi'n aelod ohono yn llwyfannu cynhyrchiad am 4 diwrnod ac wedi cael Cymeradwyaeth Corff o Bersonau. Caiff Amy berfformio o dan y Gymeradwyaeth honno.

Fodd bynnag, os yw plentyn wedi perfformio dan Gymeradwyaeth caiff nifer y diwrnodau eu hystyried yn ddiwrnodau perfformiad.

Enghraifft

Chwaraeodd Jake ran 'Oliver' yn y cynhyrchiad a lwyfannwyd gan y grŵp lleol y mae'n aelod ohono. Rhoddwyd Cymeradwyaeth Corff o Bersonau i'r Grŵp a bu Jake yn perfformio am 3 diwrnod. Daeth ymholiad i law gan sefydliad arall a oedd yn awyddus i ffilmio gyda Jake am 2 ddiwrnod a chan nad oedd yn cael ei dalu a chan nad oedd yn gorfod bod yn absennol o'r ysgol (roedd y gwaith ffilmio ar y penwythnos) roeddent am ddefnyddio'r eithriad sy'n gysylltiedig â'r rheoliad 4 diwrnod. Yn yr achos hwn, mae'r diwrnodau y perfformiodd Jake dan y Gymeradwyaeth Corff o Bersonau yn cyfrif ac ni ellir gwneud cais am eithriad. Felly, mae'n rhaid i'r sefydliad wneud cais am drwydded.

Mae'n bosib y bydd swyddogion trwyddedu yn cwestiynu sut y gallant ddefnyddio'r eithriad 'rheoliad 4 diwrnod' os nad ydynt yn cael gwybod am y plant unigol sy'n perfformio dan Gymeradwyaeth Corff o Bersonau. Nid lle awdurdodau lleol yw Heddlu'r 'Rheol 4 diwrnod' a dylai swyddogion trwyddedu gyfeirio at dudalen 8 y canllaw hwn ' y rheol pedwar diwrnod '. Mae paragraff 4 yr adran yn nodi:

Mae'n ofyniad cyfreithiol i wneud cais am drwydded pan fo angen un ac mae unrhyw berson sy'n achosi neu'n cael gafael ar blentyn i wneud unrhyw beth sy'n mynd yn groes i'r gofyniad trwyddedu yn cyflawni trosedd a gall fod yn destun dirwy, carchariad neu'r ddau. Os yw cynhyrchydd yn dibynnu ar y rheol pedwar diwrnod fel sail i beidio gwneud cais am drwydded, dylent fod â sail resymol dros gredu nad yw'r plentyn wedi perfformio ar fwy na 3 diwrnod yn ystod y 6 mis diwethaf.

Yn amlwg cyfrifoldeb y cynhyrchydd yw sicrhau ei fod yn gwneud ymholiadau rhesymol ac mae enghreifftiau o arfer gorau wedi'u nodi yn yr adran. Mae angen i swyddogion trwyddedu sicrhau bod eu ffurflen eithriad yn fanwl gywir ac yn esbonio'n glir i'r cynhyrchydd ba ymholiadau y dylai eu gwneud a'r canlyniadau petaent yn methu â gwneud hynny.

Penderfyniadau Cymeradwyaeth Corff o Bersonau

Fel y dywedwyd eisoes yr awdurdod lleol sy'n penderfynu p'un ai i roi Cymeradwyaeth Corff o Bersonau a gall osod unrhyw amodau ar y gymeradwyaeth i sicrhau llesiant plant.

Gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl os yw'r sefydliad yn methu â bodloni'r amodau y cytunwyd arnynt ac os oes gan yr awdurdod lleol bryderon ynghylch diogelwch a llesiant y plant sy'n gysylltiedig â'r perfformiad.

Os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio â rhoi Cymeradwyaeth Corff o Bersonau yr arfer gorau yw ei fod yn ysgrifennu at y sefydliad gan nodi'r rhesymau dros wrthod y gymeradwyaeth.

ATODIAD A

ADRAN 7

ABSENOLDEB O'R YSGOL

Mae'n bwysig bod swyddogion trwyddedu yn deall yn glir y gwahanol adrannau o'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i absenoldeb o'r ysgol er mwyn cymryd rhan mewn perfformiad, gweithgaredd neu chwaraeon y telir amdanynt. Y ddeddfwriaeth berthnasol yw:

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963 s 37(4) a 37(7)

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 Rheoliad 7.

Mae Adran 37(4) Deddf 1963 yn dweud na ddylai awdurdod lleol roi trwydded i blentyn wneud unrhyw beth oni bai ei fod yn fodlon na fydd ei addysg yn dioddef.

Mae Adran 37(7) Deddf 1963 yn dweud y bydd trwydded yn nodi'r amserau y gall y plentyn fod yn absennol o'r ysgol at y dibenion a awdurdodir gan y drwydded ac yr ystyrir bod yr amserau a nodir yn yr absenoldeb wedi'u hawdurdodi gan reolwyr, llywodraethwyr neu berchennog yr ysgol.

Dylai awdurdodau trwyddedu gadw mewn cof bod adran 37(4) yn dweud os ydynt yn fodlon na fydd addysg plentyn yn dioddef na fyddant yn gwrthod rhoi trwydded. Felly, os na all yr ysgol gyflwyno tystiolaeth neu os nad yw'r awdurdod lleol wedi'i argyhoeddi gan eu tystiolaeth neu wrthwynebiadau mae'n **rhaidd** iddyntroi trwydded, os ydynt yn fodlon â phob agwedd arall ar y cais.

Mae'n rhaidd cynnwys llythyr oddi wrth y pennaeth gyda'r cais am drwydded, oni bai fod yr awdurdod yn fodlon nad yw'n bosibl neu ymarferol i gael y fath lythyr (er enghraifft, pan ddaw cais i law yn ystod gwyliau haf yr ysgol ac nid yw'n cynnwys bod yn absennol o'r ysgol), ond nid os byddai digon o amser wedi bod i gael llythyr petai'r cais wedi'i gynllunio'n well.

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion 2010

Mae Rheoliad 7(2) yn dweud: Ni ddylid rhoi caniatâd i fod yn absennol i alluogi disgybl i weithio (boed â thâl neu heb dâl) yn ystod oriau ysgol ac eithrio -

(a) cyflogaeth at y diben o gymryd rhan mewn perfformiad yn ôl yr ystyr yn adran 37 Deddf Pant a Phobl Ifanc 1963(1) dan awdurdod trwydded a roddir gan yr awdurdod lleol dan yr adran honno.

Ceir esboniad pellach ynghylch hyn yn nghyngor Llywodraeth Cymru (dogfen ganllaw Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel rhif: 192/2015 Adran 2.9 sy'n nodi: Ar gyfer ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac ysgolion arbennig nas cynhelir gan yr awdurdod lleol, ni chaiff plentyn fod yn absennol o'r ysgol er mwyn perfformio neu gymryd rhan mewn

chwaraeon neu fodelu y telir amdanynt heb gael trwydded gan awdurdod lleol y plentyn. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu oni bai fod y perfformiad neu weithgaredd yn digwydd y tu allan i oriau ysgol (er enghraifft ar benwythnos neu yn ystod gwyliau ysgol), ni chaiff plentyn ddibynnu ar un o'r eithriadau a nodir yn adran 37(3) i berfformio oherwydd gall y pennaeth ond awdurdodi absenoldeb i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad neu weithgaredd y mae ganddo drwydded ar ei gyfer.

Fodd bynnag -

Mae Rheoliad 7(5) yn dweud: Mae'r rheoliad hwn (h.y. Rheoliad 7 yn ei gyfanrwydd) yn berthnasol ond mewn perthynas ag ysgol a gynhelir ac ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod awdurdod lleol.

Mae hyn yn golygu os bydd ef neu hi yn dewis gwneud hynny, y caiff pennaeth ysgol annibynnol, academi neu ysgol rydd awdurdodi absenoldeb i gymryd rhan mewn perfformiad p'un ai â thrwydded neu heb drwydded.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amgylchiadau y gellir caniatáu absenoldeb o'r ysgol dan yr eithriadau yn adran 37(3).

Math yr Ysgol	Eithriadau	A ellir awdurdodi absenoldeb?
Ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	Rheol 4 diwrnod	Na - bydd rhaid cael trwydded
Ysgol arbennig nas cynhelir gan yr awdurdod lleol	Rheol 4 diwrnod	Na - bydd rhaid cael trwydded
Ysgol annibynnol, academi neu ysgol rydd	Rheol 4 diwrnod	Gellir - os yw'r pennaeth yn dewis gwneud hynny
Ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	Cymeradwyaeth Corff o Bersonau	Na - bydd rhaid cael trwydded
Ysgol arbennig nas cynhelir gan yr awdurdod lleol	Cymeradwyaeth Corff o Bersonau	Na - bydd rhaid cael trwydded
Ysgol annibynnol, academi neu ysgol rydd	Cymeradwyaeth Corff o Bersonau	Gellir - os yw'r pennaeth yn dewis gwneud hynny

Gyda diolch i Sandra Rothwell, cyn gadeirdd NNCEE ac awdur The Guide to Performance Licensing England 2014. Diwygiwyd i adlewyrchu Rheoliadau Cymru gan Jo Bowman, Cyngor Caerdydd

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English